Cofnodion Drafft Cyngor Llanbedr 3.4.25

Presennol

Jane Taylor Williams, Eirwyn Thomas, Helen Johns, Nia Jones, Kevin Titley, Luise Vassey, Robin Ward, Cyngh Annwen Hughes.

Ymddiheuriadau

John Evans, Cyngh, Gwynfor Owen.

Datgan Buddiant – dim

Ceisiadau Cynllunio – dim, ond nododd RW bod yna wybodaeth parthed Erthygl 4 .

Adroddiad Cyllid

Nododd y Clerc nad oedd canlyniad cyfrifyddu 2023/24 wedi ei wneud gan yr archwiliwr allanol hyd yma. Bydd yn rhaid gneud 2 flynedd yn awr mewn un.

Nododd hefyd bod yn rhaid cadarnhau nifer o ddogfennau, eu diwygio efallai cy neu cyflwyno eto I'r Archwiliwr Mewnol. Pasiwyd I drefnu noson arall ar gyfer hyn. Bod ETH, KT a JTW ynghyd a'r Clerc yn gwenud hyn.

Balans Banc diwedd Mawrth ydoedd £15621.36

Hyn ychydig yn uwch na'r disgwyl gan nad oedd gwariant ar gyfer camerau CCTV.

Derbyn ffurflen I'w llenwi am lwfansau gan AH.

Wedi talu y canlynol ym mis Mawrth.

G.yfieuthu £75

William Brothers £5000 wal gynnal

Eisteddfod Ardudwy £200

Angen talu y canlynol ym mis Ebrill

Ysiwriant £669.06

Neuadd £20

Cymru 1 £3

Cyfrifydd £60

Un Llais Cymru £147

Cyflog a chostau'r Clerc – cyflog =£704.40 Cadw Swyddfa =£ 596 Costau = £3.00 Trafeilio = £16.20 .

HMRC

HMRC ar payee.

Archwiliad Cae Chwarae

Materion yn Codi

1. Y Fynwent – chwyn angen eu clirio. Diwrnod o lanhau 17.5.25 am 10.30 y bore

Nodi hyn yn y Llais, a Cambrian News, ceisio annog aelodau'r Eglwys ddod I helpu.

Wedi derbyn cwyn am faw cwn yn y fynwent. Cysylltu gyda Cyngor Gwynedd parthed hyn. Diffyg parch!!!.

2. Cae Chwarae – wedi derbyn adroddiad manwl iawn gan "Inspection Wales", er bod peth gwaith wedi ei wneud gan G.L.Jones, mae yna ddiffygion yn y matiau diogelwch ac ambell offer ond risg isel. Pasiwyd bod y Clerc yn anfon yr adroddiad ymlaen at G.L.Jones.
3. CCTV – pasiwyd bod 4 aelod o'r Cyngor sef ETh, JTW, KT, RW yn cyfarfod I gerdded y pentref 13.4.25 am 10.30 Syniad I dynnu lluniau er mwyn cofnodi lleoliadau addas ar gyfer CCTV.

Yna cysylltu gyda Rich Hollinsworth I drefnu cyfarfod arall.

4. WelTag – rhai Cynghorwyr heb fod yn y cyfarfodydd agored.

Nododd JTW bod 12 opsiwn ar gael I'w trafod. Y criw wedi bod yn brysur iawn, Gwaith caled. Angen I bawb anfon sylwadau yr ymgynghoriad erbyn 6 Fai.

Nododd AH bod y cynllun ffordd liniaru ar gyfer Llanbedr wedi derbyn llawer o hysbysiad. Nododd hefyd nad oedd cofnod o enwau pwy fynychodd y cyfarfodydd. Hyn yn siom, gan nad ydym yn ymwybodol o dalgylch y trigolion a ddaeth I'r cyfarfodydd..

Pasiwyd bod y Cyngor yn cyfarfod 10.4.25 am 7.30 a byddai Luise ar zoom I drafod y cynlluniau .

5. Cyfarfod Rheilffyrdd Arfordirol y Cambrian

   Nododd y Clerc ei bod wedi mynychu cyfarfod zoom o'r uchod. Cadeirwyd gan Eryl Jones Williams, ac yn absennoldeb Cyngh. Gwynfor Owen, cafwyd hawl gan y Cadeirydd I Glerc Llanbedr ddatgan eu cwestiynnau. Nododd y Clerc bod yr un pethau yn codi bob tro, a dim yn cael eu gwneud y n eu cylch.

   Mater I Network Rail yw'r barriers diogelwch medd Gail Jones (TFW), ond nid oedd Gwynfor Rees yn bresennol.

   Cafwyd diweddariad ar y sefyllfa yn Llanbedr gan Gail Jones.

   Cysgodfan – wedi gwella hyn, Bellach wedi trwshio y to hefyd. Bydd cysgodfan aros newydd yn cael ei godi ar y safle. Yn gyntaf mae'n rhaid atgyfnerthu y platform ar colofnau. Disgwylir I'r gwaith gael ei wneud cyn diwedd Ebrill.. Gwaith wedi ei wneud ar y ffensio hefyd. FFensys pren

   Arwydd Talwrn Bach – dyma y cynnig . LLANBEDR – dewch oddi ar y tref yma ar gyfer Talwrn Bach.

   Na I hyn medd y Cyngor – achosi mwy o ddryswch.

   Beth am LLANBEDR – gynt Talwrn Bach

   Ac yn saesneg LLANBEDR – formely Talwrn Bach

   Y Clerc I gysylltu yn ol gyda'r awgrymiad yma. Rhatach o bosib , a paham y newid yn yr enw pryn bynnag, heb gyfnod o ymgynghori medd Helen Johns.

Nifer o Gynghorau yn cwyno am y toriadau yn y gwasanaeth, hyn yn effeithio ar bobl sy'n gweithio mewn twristiaeth, busnesau ac arlwyaeth. Effaith Theatr y Ddraig a hefyd Magic Lantern. Ategodd Cynghorydd Elin Hywer Pwllheli yr un fath.

Mater I'r MP's yw hyn medd Gail Jones, ac angen lobio rheini.

Mynd ar mater ymhellach felly. Cynghorydd Gwynfor Owen a Elin Hywer gael bod yn rhan o'r trafodaethau hyn gyda TFW a'r Aelod Seneddol.

Holwyd hefyd am bin sbwriel/ bin baw cwn. Lowri Evans am gydlynu hyn gyda Cyngor Gwynedd a TFW.

Awgrymwyd y gellid gwahodd Gail Jones I gyfarfod o'r Cyngor hefyd.

Dim ond cwestiynnau gan Gyngor Llanbedr , cyfarfod nesaf mis Tachwedd.

Fforwm Ardudwy – materion a godwyd yma

- Gwasanaeth trenau – ac anfodlonrwydd, mynd ar y tren a heb dalu a chodi tocyn.
- Dyfodol safle HAL.
- Ceir yn cael eu gadael – heb drwydded arnynt – perthnasol I Gyngor Llanbedr a Cyngor Dyffryn
- Adeiladu mwy o dai ar seilwaith ddim yn ddigonol. Cael ein gadael allan eto. Llai o ddeintyddion, llai o ddoctoriaid I ddygymod ar galw. Angen hysbysu Parc Cenedlaethol o hyn.
- CCTV – wedi gweithio yn Bermo – atal troseddu.
- Cyflymdra 20 mya.
- Dyfodol Plas Tan y Bwlch
- Rhandiroedd a thir gwastraff o fewn Cymunedau. Dyffryn a Bermo.
- Grantiau – gwahodd Mabon ap Gwynfor I'r cyfarfod nesaf o'r Fforwm I drafod hyn, a hefyd gorr yrru drwy'r Pentrefi. Cwyn yn berthnasol I bob Cyngor.

Fforwm nesaf ymhen 3 mis. Mis Mehefin.

Adroddiadau gan Gynghorydd Sirol – Cyngh. Annwen Hughes

1. Wedi bod mewn cyfarfod heddlu yn ddiweddar yn y Bermo.

Gorr yrru – van go safe ddim yn mynd allan ar hyn o bryd. Bydd yn dod I Llanbedr ar feic modur. Aros nes daw canfyddiadau arolwg cyflymder gan Gyngor Gwynedd wedi dod I law. Hyn I fod cyn diwedd Mawrth.

2. Cwyn baw cwn yn y Fynwent. Adran cwn Cyngor Gwynedd
3. Ffigyrau troseddau yn uwch .
4. Ceir heb drwyddedau – wedi cysylltu efo Marc Mortimer – adran gwarchod y cyhoedd. Os nad yw'r cerbyd yn achosi rhwystr, ni allant neud dim ag o. Hithau yn egluro bod y cerbyd yn rhwystr, yn enwedig pan bo cerbyd arall wedi ei barcio gerllaw.
5. Bin halen ar gyfer Cwm Bychan – wedi cysylltu I ategu dymuniad y Cyngor I brynu bin halen o'r newydd.
6. Nododd ETh bod bin halen newydd wedi cael ei osod ger Allt Goch.
7. Tylla ar hyd y ffordd sy'n arwain at Gerddi Bluog.
8. Wedi holi beth sy'n digwydd gyda'r palmant ger y Victoriqa, a pryd fydd map y llwybrau yn cael ei ail leoli.

Materion gan y Cynghorwyr
LV – holi beth sy,n digwydd parthed Gwaith dwr yn Llanbedr?
KT – Bod cystadleuaeth peldroedd flynyddol dan ofal Ed Richards ar y 24.5.25, a bod KT yn ngofal y biniau eto eleni.
ETh – darnau o ffordd Garth Goch yn dechrau mynd yn dyllog eto.  Cadw golwg ar y sefyllfa.
NJ – yn nodi bod y rhwydwaith band eang fibre optic yn sal iawn.
JTW – tir ger Glennydd pwy sydd berchen hwn?  Dim cofnod yn y Land Registry.
JTW – sbwriel ar hyd ffordd Mochras.  A phan na wnaiff pobl glirio o flaen eu tai?  Llanbedr yn edrych yn fler iawn unwaith eto.